

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, 2 o Fai, 2019 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Anwen Jones (Is gadeirydd), Aled Davies; Sian Angharad Parry, Tegid Jones; William Ifor Hughes; Thomas Prys Jones, Aled Lloyd Evans, Gareth O. Davies, Darren Morley a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau.

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Angela Williams, Trefor Wyn Jones, Sion Aled Jones, Naomi Jones; Ceri Jones.

Diolchodd y Cadeirydd newydd sef Cynghorydd Anwen Jones i'r Cyn Gadeirydd, a'r Clerc y Cynghorydd Margaret Griffith am ei gwaith fel Cadeirydd am flwyddyn 2018 – 2019.

- Dewis cynrychiolydd i Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru. Dewisiwyd y Cynghorydd Trefor W Jones.
- Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grŵp Mynediad Dwyfor. Penderfynwyd gofyn i Mr Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog gario ymlaen.
- Arwyddwyd Datganiad Derbyn Swydd, Cadeirydd gan y Cynghorydd Anwen Jones.
- Cynnigiwyd enw y Cynghorydd Angela Williams yn Is-Gadeirydd, yn ei absenoldeb, felly disgwyl i dderbyn ymateb ganddi.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 4ydd o Ebrill 2019, yn Neuadd Llanystumdwy.

3. Llofnodwyd cadarnhâd y taliadau BACS a wnaed fis Ebrill 2019 gan y Cadeirydd.

4. Materion yn codi o'r cofnodion.

Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol – neb

6. Cyngor Gwynedd.

7. **Dyfodol Amgueddfa Lloyd George**- e-bost wedi ei dderbyn gan Nest Thomas, Prif Swyddog Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, Cyngor Gwynedd. Eisiau i'r Cyngor Cymuned enwebu rhywun i gymryd rhan yn ei cynllun i ddarganfod gweledigaeth a model llywodraethol priodol ar gyfer dyfodol Amgueddfa Lloyd George.

Fel rhan o'i prosiect a gyllidir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri maent wedi penodi Kevin Mason & Associates fel yr ymgynghorwyr i ymgymryd â'r gwaith yma. Roeddent yn estyn gwahoddiad i'r Cyngor Cymuned fod yn rhan o'r ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid ac i enwebu rhywun.

Mae Kevin Mason, Jonathan Durnin a Hywel Evans wedi cael ei comisiynu i ystyried y gwahanol opsiynau i ddyfodol yr Amgueddfa, fel sail i gynllunio a datblygu manwl yn y dyfodol. Roeddent eisiau cyfle i drafod barn y Cyngor Cymuned ar yr opsiynau posib i'r Amgueddfa, yn arbennig o fewn cyd-destun yr ardal a'r datblygiadau eraill sydd ar y gweill. Roeddent eisiau cyfarfod cyn 17.05.19 os yn bosibl. **Y Cynghorydd Darren Morley wedi cael ei enwebu i drafod gyda nhw ar ran y Cyngor Cymuned.**

8. Lwfansau Cynghorydd rhwng 1af o Ebrill 2019 - 31ain o Fawrth 2020; y Cyngorwyr a oedd yn bresennol wedi wedi llofnodi os am gymryd neu wrthod y lwfans.

9. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Mainc ar y llwybr o Lanystumdwy i Grietieth ger Lodge Ynysgain.

Y Clerc wedi derbyn pris gan Mr Dafydd Atkins, a Cybi Cyf.

Cytunwyd i ofyn wrth Cybi Cyf. wneud y gwaith yn Llanystumdwy, ac i osod y fainc yn Chwilog a bod angen i'r Clerc cysylltu hefo cwmni David Ogilvy Engineering, i archebu'r ddwy fainc maint 1800 mm mewn lliw du. Penderfynwyd gosod y fainc ger y llwybr, ac nid ger y coed, felly ni fyddai angen tynnu ac ail adeiladu y wal. Byddai angen gosod ychydig o 'dar' i ledu'r llwybr ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Mr David Merfyn Griffith, Archwiliwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor wedi cytuno i hyn. Cybi Cyf., am osod 'Kinmar Permanent Security Nut Geomet Steel M10', arnynt, fel na ellir ei symud ar ol iddynt gael ei gosod, ac am osod 'deflector posts' un bob ochr i'r fainc yn Llanystumdwy.

Prisiau'r meinciau:-

£

1800 mm mewn hyd yn £693.00 + TAW (£138.60) (5.9" a 10 modfedd) x 2 = 1663.20

Pris ar gyfer danfon yw - 2 fainc - £190.00 + TAW (£38.00) = 228.00

Cyfanswm = 1891.20

Byddwn yn gallu hawlio'r TAW o £315.20 yn nol flwyddyn nesaf.

Wal maes parcio Llanystumdwy wedi dymchwel -ymholiadau wedi cael ei gwneud gan aelodau o'r cyhoedd ynglyn â pham nad oedd y wal wedi cael ei thrwsio. Y Cynghorydd Aled Evans eisioes wedi cysylltu hefo Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ac roeddent wedi cadarnhau ei bod wedi cyfeirio'r mater ymlaen i'r Adran Rheoli Tir. Y Clerc hefyd wedi anfon llythyr atynt i dynnu sylw at y mater, a'r ffaith ei bod wedi dymchwel ers peth amser, ac angen ei thrwsio. **Y wal wedi cael ei thrwsio erbyn y cyfarfod.**

Rhoslan/Ynys

Pont Rhydybenllig - ymholiad yn hysbysu'r Clerc fod rhywun/rhywbeth wedi mynd i fewn i bont Rhydybenllig, o ochr Hen Felin, a fod y wal wedi dymchwel i fewn i'r cae. Y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd yn syth, ond yn dal i ddisgwyl ymateb. **Angen i'r Clerc holi eto.**

Chwilog

- Mainc newydd yng nghanol Chwilog. Y Clerc wedi cysylltu hefo cwmni David Ogilvy Engineering, ac maent wedi cadarnhau fod sylfaen 'tar' yn ddigonol ar gyfer y fainc, ac mai dim ond 'resin fixing' fydd ei angen i osod y 'bolts' yn ei lle. Cytuno i Cybi Cyf. ei gosod.

Bin baw cwn - cais i gael bin yng ngheg Lon y Fynwent. Bagiau baw cwn yn cael ei rhoi ym miniau'r fynwent sy'n peri gofid a nid oes bin baw cwn arall yn ymyl.

- Y Clerc wedi anfon llythyr i Cyngor Gwynedd, ac wedi trafod y mater hefo Mr Alan Hughes, Warden Gorfodaeth Stryd. Roedd yn dweud fod eu cyllid ar gyfer gwasanaethu biniau baw ci wedi cael ei wario ac felly byddai'n rhaid i bob cais gael ei gysidro'n ofalus cyn ei cyfiawnhau. Fe wnaeth holi tybed a fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon talu i'w wasanaethu, sef tua £3.50 i'w wagio bob tro? Y Clerc wedi cysylltu eto, i ofyn am gadarnhad os oeddent am osod a thalu am y bin, ac y byddai'r Cyngor Cymuned wedyn yn barod i ystyried talu am wagio'r bin fel bo angen. Y bin wedi cael ei osod erbyn y cyfarfod, Cyngor Gwynedd yn talu am y bin a'i osod, a'r Cyngor Cymuned yn talu am ei wagio fel bo angen.

- Swyddfa Bost - y Clerc wedi ysgrifennu atynt yn holi pam fod y swyddfa bost ar gau ambell ddiwrnod, ac wedi cau am wythnos un tro. Nodwyd fod hyn yn creu cryn anhwylustod i'r cyhoedd, sydd yn dibynnu ar y gwasanaeth yn y pentref.

Derbyniwyd ymateb gan y Ganolfan Gyswllt Swyddfa Bost, yn dweud ei bod wedi codi ein pryderon gyda'r Postfeistr. Dywedodd y Postfeistr nad yw'r

"gwasanaeth wedi gallu ymweld â'ch ardal oherwydd prinder gweithwyr. Mae wedi fy sicrhau fod yn ymchwilio i'r mater a bydd yn cyflogi gweithiwr yn y dyfodol agos.

Rydym yn ymwybodol o'r pwysigrwydd sydd gan Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid.

Hoffwn eich sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ymrwymedig bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i fod ar gael i gwsmeriaid yn eich cymuned.

Diolch am gymryd yr amser i ddod â'r mater pwysig hwn i'n sylw a derbyniwch ein hymddiheuriadau diffuant am unrhyw anghyfleustra neu rwystredigaeth a achoswyd".

Derbyn

- **Llwybr troed o Chwilog i Afonwen**
- Clerc wedi derbyn dau ymholiad ynglyn â chael llwybr troed rhwng 'Ocean Heights', Chwilog i Afonwen. Roedd yn dweud byddai palmant o Ocean Heights i Afonwen (mae eisoes balmant hyd at Ocean Heights) yn cysylltu y pentref gyda threfi Cricieth a Phwllheli. Byddai'n rhoi milltiroedd maith o lwybr cerdded / rhedeg neu feicio diogel i breswylwyr y pentref a hybu gweithgaredd actif a chadw'n iach a heini. Dywedwyd fod nifer o rieni eraill yn y pentref o'r un farn, ac y byddai'n fodlon trefnu i gasglu enwau petai hynny o gymorth. **Penderfynwyd cysylltu â Cyngor Gwynedd ynglyn â'r mater i wneud ymholiadau, a bod y Clerc yn gofyn wrth yr aelod o'r cyhoedd i drefnu casglu enwau o bobl oedd yn gefnogol â'r syniad.**
- **Pont Rhydycroesau, ger Plas Talhenbont**
- Y Clerc wedi derbyn dau ymholiad gan drethdalwyr, yn son fod y bont wedi cael ei tharo gan lori fawr 'artic', a oedd yn mynd i Talhenbont. Gwelwyd lori arall debyg wedyn yn methu pasio dros y bont, a oedd eto'n mynd i Talhenbont, ond yn methu troi i fyny'r allt oherwydd fod y lon yn gul ac anaddas i gerbydau

o'r fath. Mae arwydd ger Lodge Gwynfryn yn barod, yn dweud nad yw'r lon yn addas i loriau. Mae coeden fawr hefyd bron a syrthio ar draws y lon – ar yr allt o'r bont i gyfeiriad Llanystumdwy. **Y Clerc am anfon llythyr a lluniau i Cyngor Gwynedd.**

Pencaenewydd/Sardis

Y lon rhwng Drofa, at Tan Llyn, Pencaenewydd, - cwynion wedi cael ei derbyn yn dweud fod yna nifer o goed peryglus ar hyd y lon, a bod un goeden wedi torri, ond heb ddisgyn eto.

Dywedwyd hefyd fod llawer o 'fwd' ar hyd ochrau'r lon yma, a gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau i drefnu glanhau'r lon. **Y Clerc wedi derbyn ateb gan yr Adran Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gwaith Stryd yn dweud fod mater y coed wedi ei gyfeirio eisoes iddynt, er ystyried gweithredu camau pellach. Hefyd ei bod yn "edrych ar gyflwr wyneb y lôn yn y man yn nhrefn yr archwiliadau diogelwch".**

Llangybi

- Llwybrau Pont Merchaid a Garn Pentyrch – Clerc wedi derbyn e-bost gan Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i ddweud fod y gwaith torri coed ac ati wedi ei gwblhau rwan. Roedd hefyd angen gwneud ymholiadau hefo Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd i weld os mai nhw yntau Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am drwsio'r gamfa ger y ffynnon.
- *Bydd Cyngor Gwynedd wedyn yn mynd ati i godi arwydd pyst bach i ddangos rhediad y llwybr a thrwsio manion eraill ar ei hyd.* **Penderfynwyd derbyn.**
- Twll drwg yn y ffordd ger Fron Sinai - mae'n bosib mai cyfrifoldeb Dwr Cymru ydyw. **Clerc i gysylltu.**
- Gwastraff yn colli o loriau ail-gylchu - yn enwedig ar y ffyrdd mwyaf gwledig. **Angen i'r Clerc gysylltu â'r adran berthnasol.**
- Oedi hir neu neb yn ateb y ffon yng Nghanolfan Iechyd Cricieth ar rai adegau. **Angen i'r Clerc anfon llythyr at y Ganolfan, ac i son nad oedd ateb i'w gael ganddynt yn aml rhwng 11 - 12 o'r gloch.**
- Taflen hysbysu rali geir Treialon Tri Chastell - cais i'w rhoi ar hysbysfwrdd y Cyngor - **hyn wedi cael ei wneud erbyn y cyfarfod.**

Materion Ariannol

10. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Y Clerc yn nodi faint o arian sydd yn y tri cyfrif, gan ddangos cyfrifon excel cyfredol, a'r dogfennau banc diweddaraf. Fe eglurwyd nad oes peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

Derbyn taliad cyntaf y praesept gan Gyngor Gwynedd, £7,500.00.

11. Cronfa Gymunedol Lightsource BP

Y Clerc wedi derbyn llythyr ganddynt yn holi sut roedd yr arian yn cael ei ddefnyddio o fewn y gymuned. Anfonwyd llythyr atynt yn rhestru'r gwahanol fudiadau/achosion lleol sydd wedi derbyn arian o'r gronfa, gan ddiolch iddynt am anfon yr arian i'r Cyngor.

12. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2019 ymlaen: trafod prisiau sydd wedi cyrraedd.

- a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
 - b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
 - c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
 - ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
 - d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
 - dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
- e. Cadw safle bedd D Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor, (cytuno i Mr Gareth Jones, Caeathro wneud y gwaith).
- f. Cytundeb torri Cae Chwarae Llanguybi (*cytundeb wedi ei wneud llynedd am 3 mlynedd o 2018, sef " gosod y gwaith i Mr Clifford Hughes er mwyn gwneud 4 toriad y tymor, gofalu am y matiau a barbio tu ol i'r ffens.*)

Llwybrau rhwng rhwng 'a - dd'-y Clerc wedi anfon llythyr at y contractwyr isod, ac i ofyn wrthynt gynnig pris am wneud y gwahanol lwybrau am y flwyddyn, a phris arwahan ar gyfer gwneud contract am 3 mlynedd, ac i gynnwys ei tsysgrif yswiriant cyfredol i wneud y math yma o waith.

Atkins Groundworks Ltd., Llanarmon;
Mr Clifford Hughes, Llanguybi;
Criccieth Cleaning Ltd., Cricieth;
Trefn, Llanystumdwy;
Mr Emyr Jones, Glanfa, Llanguybi,
Mr D.E. Williams, Encil y Coed, Llithfaen.

Oherwydd nad oedd llawer o ymateb wedi cael ei dderbyn gan y contractwyr, gofynwyd i'r Clerc roi hysbyseb yn Y Ffynnon ar gyfer cael prisiau ar gyfer y gwaith uchod.

13. O Ddrws i Drws

Cais am roi arian tuag at y cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa leol. Petai O Ddrws i Ddrws yn derbyn swm o £500 gan y Cyngor, am flwyddyn gyfan, bydden nhw wedyn yn gallu cludo pobl i'r feddygfa. Bydden nhw wedyn yn gofyn i'r teithiwr am, tua £2 y pen. Yn ystod y flwyddyn beilot byddent yn cadw cofnod o rif y defnyddwyr, unrhyw broblemau, neu unrhyw beth allent ei wneud yn well. Byddent hefyd yn gwybod erbyn diwedd y flwyddyn, faint yw cost gwirioneddol gwneud hyn - gallai fod yn llai neu'n fwy.

Byddai pobl yn ffonio O Ddrws i Ddrws (gan roi 24 awr o rybudd os yn bosib) a byddai O Ddrws i Ddrws yn eu danfôn a dod a nhw adre. **Y Clerc wedi sgwennu atynt i ddweud ein bod yn cytuno i gyfrannu £500.00 tuag at y gost, am flwyddyn, a gofyn tybed a fyddai'n bosib cludo defnyddwyr i Ysbyty Bryn Beryl neu Ysbyty Alltwen, pebyddai galw am hynny. Ni dderbyniwyd ymateb erbyn y cyfarfod, felly gofyn i'r Clerc anfon llythyr eto.**

14. Wifi Cymdeithas Adloniant Pencaenewydd

Ymholiad gan y Trysorydd yn gofyn a fyddem yn fodlon talu iddynt bob 6 mis yn hytrach nag unwaith y flwyddyn, sef ym mis Chwefror? Cytunwyd y byddai hyn yn dderbyniol, ac y byddem yn gwneud taliad fis Medi hefyd. **Y Clerc i hysbysu'r Trysorydd.**

15. Archwiliad Mewnol Cyfrifon 01.04.2018-31.03.2019 – y Clerc wedi cysylltu hefo Ms Luned Fón Jones, Rheolwr Archwilio, Cyngor Gwynedd i'w hysbysu y bydd y cyfrifon a'r dogfennau perthnasol yn barod ar gyfer cael ei archwilio ar ol ein cyfarfod blynyddol.

Y Cadeirydd wedi llofnodi'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn 01.04.2018 – 31.03.2019 yn y cyfarfod.

16. **01.04.19** - derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth NALC drwy Un Llais Cymru+ SLCC/ALCC ar 7.12.18, yn dweud fod Cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 1af, 2019 ymlaen yn symud i fyny ar y raddfa cyflog. Mae cyflog y Clerc yn ol y cytundeb cyflogaeth yn datgan:-

1. Cyflog

- 1.1 “Mae eich cyflog yn unol â phwynt cyflog NJC ar gyfer clercod rhan amser sef ar raddfa LC1 – SCP 18-22.
- 1.2 Ar yr amod fod eich perfformiad yn foddhaol, byddwch yn symud yn awtomatig drwy'r raddfa gyflog trwy godiadau blynyddol hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Bydd eich codiad cyflog cyntaf yn daladwy ar 1 Ebrill 2019 ac wedi hynny ar 1af Ebrill bob blwyddyn hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Gall y Cyngor ddal codiad cyflog yn ôl os bernir fod eich perfformiad yn is na'r disgwyl, yn dilyn adolygiad blynyddol.”

Felly, ers 01.10.18 mae'r Clerc wedi derbyn cyflog ar sail pwynt 18 o'r raddfa cyflog SCP, a oedd yn **£9.808** yr awr. Os yw ei perfformiad yn foddhaol, gellir symud yn awtomatig drwy'r raddfa codiad cyflog o'r 01.04.19 ymlaen, ar sail pwynt 19 o'r raddfa cenedlaethol SCP, sydd yn **£10.37 yr awr**. Felly mae hyn yn **£10.37 yr awr x 35 awr y mis x 12 mis = £4355.40**.

I gymhlethu pethau, maent wedi newid y rhifau sydd ar y raddfa cyflog o ddechrau Ebrill 2019, oherwydd y 'cyflogau byw cenedlaethol', (“national living wage”). Felly bydd cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 7 – 12, yn lle 18 – 22 o'r 01.04.19, a'r pwynt cyflog newydd fydd 8. Cytuno derbyn fod hyn yn dderbyniol a bod y graddfa cyflog yn codi.

17. Anfonebau angen eu talu:

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
ICO 'Information Commissioner's Office'	Cofrestru hefo'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth-Diogelu Data	40.00	0.00	35.00 Cyfeirnod: 005fd485020c Cyfeirnod: ZA392520 (Ond yn £40.00 os na delir drwy ddebyd uniongyrchol)	BACS/neu maent wedi anfon ffurflen debyd uniongyrchol Cytuno i dalu drwy dderbyd uniongyrchol yn y cyfarfod
Neuadd Chwilog	Wifi	39.98	-	39.98	BACS

	(cynnwys costau gosod o £9.99 a mis Mai £29.99 (cael ei osod yn Chwilog 30.04.19-contract 18mis)				Cyfrif budd cymunedol
Zurich Cwmni Yswiriant	Yswiriant y Cyngor rhwng 01.06.2019-31.05.2020 (cytundeb 5 mlynedd)	717.93		717.93 (Anfoneb rhif 37362404)	BACS

Cyflog mis Ebrill 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Ebrill 2019 35 awr x £10.37 =	362.95-llai treth £72.40	<u>290.55</u>	101121
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Ebrill 2019	362.00 x 20% = £72.40	<u>72.40</u>	101122
Costau'r Clerc Ebrill 2019	£22.91	<u>22.91</u>	101123

****Drwy ganiatâd y Cadeirydd**

Angen ethol Llywodraethwr newydd ar gyfer Ysgol Llanystumdwy fel aelod cymunedol o fis Medi 2019 ymlaen, yn lle'r Cynghorydd Naomi Jones. Fe wnaeth y Cynghorydd Sian Angharad Parry gynnig y byddai'n gwneud, ac fe eiliwyd hynny. **Y Clerc i gysylltu hefo'r ysgol i'w hysbysu o'r penderfyniad.**

It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk